TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Unit in Introduction to Retrofit Under PAS2035 Level 5

Yn gryno

Nod yr uned hon yw darparu dysgwyr gyda'r wybodaeth i ddeall cyd-destun a chefndir ôl-osod domestig dan PAS2035. Bydd dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o fanteision ôl-osod ty cyfan a manylu, gam werthuso opsiynau ôl-osod, patrymau defnydd o ynni domestig ac egwyddorion allweddol ôl-osod domestig carbon isel.

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ffordd hyblyg a rhad ac am ddim o ddysgu. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu i gyd-fynd â'u ffordd bresennol o fyw.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un 19 oed a hyn, sy'n byw yng Nghymru, ac mewn cyflogaeth

... unigolion sydd ynghlwm â'r sector adeiladu domestig, yn enwedig y rhai hynny sydd eisoes ynghlwm â phrosiectau datgarboneiddio/effeithlonrwydd ynni, neu sy'n awyddus i fod ynghlwm â phrosiectau o'r fath

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, ac sy'n arbenigo mewn ôl-osod

Cynnwys y cwrs

Y prif destunau yr ymdrinir â hwy yn yr Uned yw:

Deall cyd-destun gwleidyddol a thechnegol ôl-osod dan PAS2035
Gallu dadansoddi ac egluro patrwm defnydd o ynni domestig, a sut mae'n amrywio rhwng anheddau
Gallu egluro manteision ôl-osod domestig ty cyfan
Deall safonau a phrosesau ôl-osod dan PAS2035
Gallu egluro gwerthusiad o opsiynau ôl-osod
Deall prif egwyddorion ôl-osod domestig carbon isel

Bydd yr Uned hon yn cael ei hasesu drwy gwblhau prawf gwybodaeth gorfodol ar ddiwedd cymhwyster a thrafodaeth broffesiynol.

Gofynion Mynediad

Cewch eich asesu yn seiliedig ar eich gwybodaeth gyfredol, a gellir gofyn unrhyw gwestiynau a chynnal trafodaeth broffesiynol yn ystod eich amser eich hun.

Er mwyn cwblhau unrhyw NVQ, bydd angen i chi feddu ar wybodaeth flaenorol a phrofiad o'r grefft/llwybr rydych yn ei ddewis.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar lefel sylfaenol o lythrennedd, yn gyflogedig a bod mewn sefyllfa lle gellir arsylwi gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau TG sylfaenol arnoch chi, ond nid yw hynny'n hanfodol.

Gwybodaeth Ychwanegol